**CYNGOR CYMUNED BUAN**

**Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor, gynhaliwyd Nos Iau, 21ain Tachwedd 2024**

**Yng Nhlwb Chwaraeon Pwllheli am 7.30 yh**

**<u>Presennol:</u>**

**Cynghorwyr**

Rhys Jones (Is-gadeirydd)

Catherine Hughes

Gareth Roberts

Tesni Jones

Wynne Davies

Phil Roberts

Cynghorydd Sirol Anwen Davies

Nia Jane Owen-Midwood (Clerc)

**<u>Ymddiheuriadau</u>**
Cafwyd ymddiheuriadau gan, Hughie Williams (Cadeirydd), Nia M Jones, Dafydd Ll Williams a Einir Lewis.

**<u>Cadarnhau cofnodion cyfarfod Hydref</u>**
Cadarnhawyd bod cofnodion 10/10/24 yn gywir gan y Cynghorydd Phil Roberts, ac fe'i heilwyd gan y Cynghorydd Catherine Hughes.

**<u>Materion yn codi</u>**

**<u>Sedd ar Gydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn</u>**
Trafodwyd cynnwys yr ebost gan Swyddog AHNE Llŷn, a gofynwyd i'r Clerc gysylltu yn ôl gan ofyn :

- Pa mor amal mae'r cydbwyllgor yn cael ei gynnal?
- Lle cynhelir y cyfarfod ?
- Beth yw hyd y cyfarfod ?

A'r ôl derbyn ymatebion, penderfynwyd i ail drafod y mater yng nghyfarfod mis Rhagfyr.

**<u>Hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad</u>**
Trafodwyd yr hyfforddiant ar y côd ymddygiad, cytunwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu yn ôl gyda "Unllais Cymru" er mwyn gofyn pe byddai modd iddynt deilwra'r hyfforddiant, a gadael i oddeutu 10 aelod o'r Cyngor Cymuned ei fynychu yn hytrach

na 20, gan nad ydym yn gyngor mawr iawn. Barn y Cynghorwyr oedd y byddai hyn yn lleihau’r baich ar y clerc ac yn lleihau’r gôst o’i gynnal, roeddan nhw hefyd yn awyddus iawn i gael gwybod beth yw hyd yr hyfforddiant?

**Cyfarfod: Dyfodol Gwasanaeth Ambiwlans a materion eraill 14/11/24**
Nodwyd bod y Cynghorydd Catherine Hughes a’r Cynghorydd Sirol Anwen Davies wedi mynychu’r cyfarfod hwn 14/11/24. Nodwyd bod y mater parcio yn Ysbyty Bryn Beryl ac yn Ysbyty Gwynedd yn achosi pryder iddynt, a’u bod yn edrych ar archebu llecyn o dir er mwyn datrys y mater.

**Gohebiaeth**

**Gosod Cofeb ger safle’r Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan**
Nodwyd bod y Clerc wedi gyrru dau ebost i MT 5 wythnos yn ôl, ond heb gael ymateb ganddo. Cyn y cyfarfod heno bu i’r Clerc yrru dau ebost arall er mwyn gofyn iddo am ddiweddariad ar y plac ar gyfer y fainc ym Moduan, a hefyd gofyn am ddiweddariad o safbwynt y “proof” ar gyfer gofeb.

Ar gais y Cadeirydd mae’r Clerc wedi gadael i MT wybod beth yw “font” y ‘sgwennu ar gyfer ei rhoi ar y lechen. Cytunwyd y Cynghorydd Sirol i gysylltu gyda’r Cadeirydd i holi am y lechen sydd yn ei feddiant, a hefyd roedd am gysylltu hefo MT er mwyn dilyn i fyny am y plac a’r proof.

**Apêl Cyngor Cymunedol 2024 – Elusen Ambiwlans Awyr Cymru**
Trafodwyd cynnwys y llythyr uchod, a bu i ni gytuno nad oeddem am gyfrannu at yr achlysur y tro hwn.

**Cais Cynllunio**
Ni wnaeth unrhyw Gynghorydd ddatgan diddordeb i Gais Cynllunio.

C24/0918/33/YA – Carneddol, Rhydyclafdy, Pwllheli, Gwynedd. LL53 7PT – Rhybudd ymlaen llaw o ddatblygiad amaethyddol er mwyn creu pit slyri.
Trafodwyd y cais a chytunwyd i’w basio.

C24/0704/33/LL – Cais ôl-weithredol yn ymwneud a chodi adeilad i gadw hofrennydd, creu helipad, ac estyniadau i’r tŷ – Ynys, Edern, Pwllheli, Gwynedd. LL53 8UA.
Nodwyd bod y Clerc wedi cysylltu gyda Mr Aneurin Parry (Gorfodaeth) a Mr Glyn Gryffudd (Cynllunio) ynghlyn a’r cais yma 20/11/24. Nodwyd bod y Cynghorydd Siriol wedi cael sgwrs gyda Glyn dair wythnos yn ôl, ac mae’r mater yn parhau i gael ei drafod.

**Materion ariannol**
**Cysoniad banc o ddyddiad:**
04/09/24 – 03/10/24 - £8,846.23c
04/10/24 – 03/11/24 - £8,284.76c

Derbyniwyd y Datganiad Banc Mis Hydref 2024 gan y Cynghorwyr.

Yn ystod cyfarfod 21/11/24, cafodd 8 siec eu harwyddo gan y Cynghorydd Catherine Hughes a'r Cynghorydd Phil Roberts.

| | | |
|---|---|---|
| Siec Rhif 200831 | Cyflog y Clerc (Mis 8) | £204.80c |
| Siec Rhif 200832 | Cyllid a Thollau (Cyllid a Thollau (Mis 8) | £51.20c |
| Siec Rhif 200833 | Costau Teithio'r Clerc | £4.68c |
| Siec Rhif 200834 | Rhent y Tir yn Rhydyclafdy | £1.00 |
| Siec Rhif 200835 | Ad-dalu NJ am Subs Microsoft 365 – renewal | £59.99 |
| Siec Rhif 200836 | Bacstal | £148.80 |
| Siec Rhif 200837 | F Jones & S Arnott (Anfoneb Torri Gwellt) | £2,300.00 |
| Siec Rhif 200838 | RBL Poppy Appeal (Wreath Sul y Cofio) | £25.00 |

**Unrhyw fater arall**

**Cwblhau Archwiliad – Archwilio Cymru**

Nodwyd y Clerc nad oedd wedi cael unrhyw gyswllt gyda aelodau o staff Archwilio Cymru yn dilyn uwchlwytho ein gwaith cyfrifon iddynt. Nid oes unrhyw ddiweddariad o safbwynt yr archwiliad.

**Dî-ffib Twnti**

Nodwyd bod Tomos Dî-ffib wedi casglu'r bateri a'r padiau newydd o dŷ'r Clerc, ac wedi eu gosod yn Nhalbont, Rhydyclafdy.

**Cysylltu â'r Adran Briffyrdd**

Nodwyd bod arwydd newydd **BODUAN** wedi cael ei osod ym Mhant Tacho.  Gofynnwyd i'r Clerc ***ddiolch*** i'r Adran Briffyrdd am wneud hyn.

Nodwyd bod coeden fawr angen sylw - angen ei thorri ym Moduan. Mae'r goeden wedi ei lleoli wrth ddwad i mewn i giatiau mawr y Plas, Lôn Llyn. Angen sylw brys, rhag ofn iddi hi ddisgyn.

Nodwyd bod y gwaith ar y Cae Chwarae yn Rhydyclafdy wedi'w orffen, a bellach ar agor. Nodwyd bod seremoni agoriadol wedi bod 16/11/24 a bod y chwarae yn werth ei weld. Gofynnwyd i Rhys fynd i'r Cae Chwarae i dynnu ambell lun, er mwyn i'r Clerc eu lleoli ar wefan Cyngor Cymuned Buan.

Nodwyd y Cynghorydd Catherine Hughes bod problem o or-yrru yn parhau wrth fynd i mewn i Bentref Rhydyclafdy o gyfeiriad Efailnewydd.  Mae pawb yn poeni bod damwain am ddigwydd, oherwydd y gor-yrru.  Dymuniad y Cynghorwyr fyddai cael monitro'r cyflymdra fwy yng nghanol y Pentref, nid yw ceir yn arafu nes maent yn cyrraedd Bont y Pentref, sydd braidd yn rhy' hwyr.

Y man delfrydol i fonitro'r cyflymdra ydi wrth ddod i mewn i Bentref Rhydyclafdy wrth eiddo a elwir yn Talafon neu Refail.  A fyddai modd i Heddlu Gogledd Cymru yrru rhiwyn allan a'r y safle.  Mae'r Cynghorydd Sirol Anwen Davies a'r Cynghorydd Catherine Hughes yn awyddus ac yn fodlon iawn i gyfarfod a hwy ar safle, ac egluro iddynt eu pryderon.
Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda Heddlu Gogledd Cymru ermwyn dwad a'r mater i'w sylw unwaith yn rhagor.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf : 12/12/24 yng Nghlwb Chwaraeon Pwllheli, Efailnewydd am 7.30yh.**